



Archwilio byd cadwraeth ystlumod trwy'r cwricwlwm cenedlaethol

Nodiadau i Athrawon

10. YSTLUMOD A DIWYLLIANT

Meysydd dysgu a phrofiad perthnasol:

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu, Celf a dylunio

Mae gan ystlumod ddelwedd gref, ac ers canrifoedd maen nhw wedi cael eu cynrychioli mewn llawer o ffurfiau – mewn celf, iaith, diwylliant lleol a llên werin. Mae ystlumod yn cael eu gweld mewn ffyrdd gwahanol mewn gwahanol rannau o'r byd.

Diwylliant

- Edrychwch ar sut mae gwahanol grefyddau a diwylliannau'n ymdrin â byd natur, gan gynnwys ystlumod. Oes yna wahaniaethau yn ôl oed pobl, neu ai dimensiwn diwylliannol yw hwn?
- Sut mae ystlumod yn cael eu portreadu yn y cyfryngau yma yn y Deyrnas Unedig?
- Pa resymau posibl gallwch chi feddwl amdany'n nhw sy'n gyfrifol am yr ofn a'r amheuan ynghylch ystlumod sy'n aml wedi cael eu cyfleu yn niwylliant y Gorllewin?
- Ydych chi'n meddwl bod agweddau wedi newid yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf?
- Os felly, beth sydd wedi arwain at y newidiadau hynny yn eich barn chi?
- Sut gallwch *chi* helpu i newid agweddau?

Astudiwch sut mae delweddau ystlumod wedi cael eu defnyddio mewn paentiadau Cristnogol am ganrifoedd. Mae gan angylion sy'n cynrychioli'r da adenydd gwyn pluog fel adar, tra bod gan ddiaboliaid a dreigiau, sy'n cynrychioli'r drwg, adenydd du ystlumod.

Chwiliwch trwy wybodaeth am ddiwylliannau eraill i gael hyd i ystlumod mewn paentiadau a cherfiadau, fel polion totem Indiaid Gogledd America. Chwiliwch am ffurfiau ystlumod ar ddysglau a jariau Tsieineidd. Pam mae ystlumod i'w gweld mor aml ar gerameg a thecstilau Tsieineidd?

Hanesion traddodiadol sy'n cael eu hadrodd i ateb cwestiynau anodd yw mythau. Chwiliwch ar y we am amrywiaeth eang o fythau am ystlumod, o lawer o wledydd a diwylliannau.

Celf a Dylunio

Mae delweddau o ystlumod i'w gweld mewn llawer math ar gelf. Chwiliwch am ystlumod mewn lluniau, ar grochenwaith, mewn cerfluniau, ar stampiau ac ati. Lluniwch gasgliad o ddelweddau ystlumod mewn manau annisgwyl. Crewch fraslun o'r rhai rydych chi'n methu mynd â nhw gyda chi, fel cnocwyr drysau, crochenwaith, gemwaith a ffabrig. Efallai byddwch chi hyd yn oed yn dod ar draws losin, bagiau creision, pecynnau grawnfwyd a stampiau postio. Peidiwch ag anghofio Batman!

Chwiliwch am ystlumod yn cael eu defnyddio'n symbolau ar arfbeisiau a bathodynnau. Weithiau bydd herodrau enwau teuluol, trefi, enwau a bathodynnau sawl sgwadron yn yr Awyrlu Brenhinol yn defnyddio llun ystlum.

- Pam dybiwch chi fod ystlumod wedi cael eu hymgorffori i'r dyluniadau hyn?
- Dyluniwch eich bathodyn neu eich arfbais herodrol eich hun sy'n cynnwys delweddau ystlum.
- Paentio sidan sy'n cynnwys ystlumod yn y darlun.

Ymchwiliwch i'r defnydd o wahanol gyfryngau wrth greu lluniau o ystlumod. Mynegwch wahanol deimladau am ystlumod yn eich dyluniadau.

- Lluniwch restr o eiriau a allai gael eu defnyddio i ddisgrifio ystlumod a'u ffordd o fyw mewn ffordd gadarnhaol. Defnyddiwch y rhestr hon i'ch helpu i ysgrifennu cerdd am ystlumod.
- Nawr lluniwch restr arall o eiriau a allai gael eu defnyddio i ddisgrifio ystlumod a'u ffordd o fyw mewn modd negyddol. Defnyddiwch y rhestr hon i'ch helpu i ysgrifennu cerdd arall am ystlumod. Gofynnwch i'ch ffrindiau gymharu sut maen nhw'n teimlo am ystlumod ar ôl eu darllen nhw.

Ysgrifennwch gerdd 'haiku'.

Mae'r **Haiku**, math traddodiadol o farddoniaeth o Siapan, yn addas iawn ar gyfer trafod ystlumod. Mae Haiku hyd yn oed yn rhannu siâp yr ystlum! Mae'n cynnwys tair llinell, ac anaml y byddant yn odli. Mae pum sillaf yr un yn y llinellau cyntaf ac olaf, a saith sillaf yn y llinell ganol. Mae'n aml yn canolbwyntio ar ddelweddau o fyd natur, ac yn pwysleisio mynegiant syml, dwys ac uniongyrchol.

Barddoniaeth i'w darllen:

The Bat - Ogden Nash

Bat - D.H.Lawrence (Ardderchog i ddisgyblion hŷn ei chymharu â cherdd Ruth Pitter)

Bats - Randall Jarrell

Man and Bat - D.H.Lawrence

Dewch o hyd i ragor o gerddi ar y we

Storïau i'w darllen:

Slumyn Dwl gan Jeanne Willis a Tony Ross

- Beth mae'r cerddi a'r storïau hyn yn ceisio'i ddweud wrthyn ni?
- Sut mae'r disgyblion yn teimlo am ystlumod? Ydy eu teimladau wedi newid ers darllen y cerddi a'r storïau?

Cerddoriaeth

Gwrandewch ar alwadau ecoleoli ystlumod ar y we. Arbrofwch gydag offer taro a gwrthrychau eraill i greu seiniau tebyg i ystlumod. Amrywiwch lefel sain a chyflymdra'r offerynnau.

Gallwch ychwanegu enwau ystlumod at eich cerddoriaeth.

ys-tlum-**mawr** – ys-tlum-**mawr** – ys-tlum-**mawr** – ys-tlum-**mawr**

ys-tlum-**mein**-lais – ys-tlum-**mein**-lais – ys-tlum-**mein**-lais

Arbrofwch gyda'r rhythmau.

- Dyfeisiwch gerddoriaeth ar gyfer cerddorfa ystlumod, gyda gwahanol offerynnau, neu gerddoriaeth y corff, i gynrychioli gwahanol ystlumod.
- Cyfansoddwch gerddoriaeth ystlumod gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadur neu allweddell.
- Lluniwch nodiant ar gyfer eich cerddoriaeth er mwyn i eraill fedru ei chwarae.
- Perfformiwch eich cerddoriaeth i'ch ffrindiau ei mwynhau.

Gofynnwch i'r disgyblion ymchwilio i alwadau ecoleoli a chymdeithasol ystlumod a chreu coreograffi ar gyfer eu dawnsfeydd byr eu hunain o amgylch y galwadau hyn.